


# PECYN GWYBODAETH
# SWYDD DIRPRWY BENNAETH
# YSGOL UWCHRADD ABERTEIFI

## GRADDFA ARWEINYDDIAETH 16-20

PARK PLACE, ABERTEIFI, CERDIGION, SA43 1AD | 01239 612 670 | YSGOL UWCHRADD ABERTEIFI



# Croeso i Ysgol Uwchradd Aberteifi

Mae'r Corff Llywodraethol yn edrych i benodi Dirprwy Bennaeth sy'n arweinydd eithriadol sy'n meddu ar weledigaeth glir, sydd yn awyddus i ymuno â thîm arweinyddol Ysgol Uwchradd Aberteifi i sicrhau addysg, cefnogaeth a gofal o'r radd flaenaf i bob disgybl yma yn yr ysgol, ac i helpu sicrhau cynnydd pob unigolyn, ac i hyrwyddo a chefnogi pob aelod o staff i sicrhau'r awyrgylch weithio orau posibl i bob un.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn addysgwr ac yn arweinydd rhagorol a phrofiadol, yn cydweithio'n effeithiol â phob rhanddeiliad ac yn meithrin perthnasoedd cadarn, gan osod esiampl broffesiynol a phositif i staff a disgyblion fel ei gilydd. Carwn apwyntio Dirprwy Bennaeth sydd â phrofiad eang fel arweinydd, ac yn unigolyn sydd wedi dangos y gallu i helpu disgyblion a staff i ddatblygu a gwneud cynnydd.

Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn medru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Os yn dymuno cael sgwrs bellach neu i drefnu ymweliad â'r ysgol cysylltwch â Mr Trystan Phillips – phillipst257@hwbcymru.net.

## AMSERLEN

Dyddiad Cau: 1/7/26
Cyfweliadau: 10/7/26
Dyddiad dechrau: Cyn gynted ag y bo modd
**(Gofynnir i ymgeiswyr sicrhau eu bod ar gael ar gyfer y cyfweliadau)**




# PWRPAS Y RÔL

Bydd y Dirprwy Bennaeth yn chwarae rôl ganolog wrth gefnogi a siapio gweledigaeth a chyfeiriad strategol Ysgol Uwchradd Aberteifi. Gan weithio'n agos gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol, bydd yn cyfrannu at ddarparu arweinyddiaeth gadarn, gyson ac effeithiol ar draws pob agwedd o fywyd yr ysgol.

Bydd deiliad y swydd yn rhannu cyfrifoldeb am feithrin diwylliant ysgol cadarnhaol, uchelgeisiol a chynhwysol, lle mae lles disgyblion a staff wrth wraidd pob penderfyniad. Bydd yn hyrwyddo disgwyliadau uchel, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd cyfartal i lwyddo drwy gwricwlwm eang, cytbwys ac ymatebol sy'n diwallu anghenion amrywiol ein disgyblion.

Bydd y Dirprwy Bennaeth yn cyfrannu'n weithredol at ddatblygu amgylchedd dysgu cefnogol ac ysgogol, gan roi blaenoriaeth i les, parch a chynhwysiant, a meithrin ymdeimlad o berthyn ymhlith yr holl gymuned ysgol. Bydd hefyd yn cryfhau a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, gan feithrin balchder yn ein Cymreictod a'n hunaniaeth ddiwylliannol ac yn hybu diwylliant ddwyieithog ein hysgol.

Yn ogystal, bydd y rôl yn cynnwys cyfrifoldeb allweddol am drefniadaeth a rheolaeth effeithiol ar weithrediad dydd-i-ddydd yr ysgol, gan sicrhau safonau uchel o ymddygiad, presenoldeb a lles. Bydd y Dirprwy Bennaeth yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal a datblygu enw da Ysgol Uwchradd Aberteifi, ei thraddodiadau cryf a'i chysylltiadau gwerthfawr â'r gymuned leol a thu hwnt.

Pan fo angen, bydd yn gweithredu ar ran y Pennaeth, gan ddarparu arweinyddiaeth hyderus, gadarn ac effeithiol ar draws yr ysgol gyfan.

# PRIF GYFRIFOLDEBAU

Bydd y Dirprwy Bennaeth yn cyfrannu'n sylweddol at arweinyddiaeth strategol yr ysgol gyfan, gan gefnogi datblygiad parhaus gweledigaeth ac uchelgais Ysgol Uwchradd Aberteifi a sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal ar draws pob maes. Yn rhan o'r rôl, bydd ganddo/ganddi gyfrifoldeb dros oruchwylio a chryfhau system Gofal Bugeiliol yr ysgol, gan sicrhau cefnogaeth gadarn, gynhwysol a chyson i holl ddisgyblion yr ysgol, gyda lles a chynnydd wrth wraidd pob agwedd o'r ddarpariaeth. Bydd hefyd yn cydlynu darpariaeth ar gyfer disgyblion MAT a SEREN, gan sicrhau bod cyfleoedd priodol ar gael i ymestyn a herio disgyblion yn academaidd.

Yn ogystal, bydd y Dirprwy Bennaeth yn gweithredu fel mentor blaenllaw ar gyfer athrawon newydd gymhwyso (TAR), gan gefnogi eu datblygiad proffesiynol a sicrhau safonau addysgu uchel. Bydd yn ysgwyddo rôl allweddol fel Arweinydd Diogelu Dynodedig yr ysgol, gan sicrhau bod trefniadau diogelu yn gadarn ac yn effeithiol. Bydd hefyd yn rheoli'r CADY fel rhan o'r strwythur rheolaeth llinell, gan sicrhau darpariaeth ADY o safon uchel sy'n diwallu anghenion pob dysgwr, ac yn gymorth strategol i'r CADY.

Bydd cyfrifoldebau pellach yn cynnwys ymdrin â chwynion yn broffesiynol ac yn sensitif, gan gynnal ymddiriedaeth a thryloywder, yn ogystal â gweithredu fel cyswllt yr ysgol i gefnogi disgyblion o gefndir difreintiedig. Trwy'r holl ddyletswyddau hyn, bydd y Dirprwy Bennaeth yn cyfrannu at greu ysgol drefnus, ofalgar ac uchelgeisiol, lle mae pob unigolyn yn cael y cyfle i ffynnu.





# CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

## Ardal Arolygu 1: Addysgu a Dysgu

- Dylunio ac arwain rhaglen hyfforddi am entora i staff (coaching cylchol, cyd-gynllunio, arsylwadau cydweithredol a phrotocolau adborth) gyda mesurau effaith clir ar ddysgu a chynnydd.
- Gweithredu fel mentor ANG a chefnogi rhaglen sefydlu yn unol ag ymrwymiadau Estyn ar ansawdd addysgu, asesu a chynnydd.
- Cydlynu strategaeth MAT: adnabod, cyfoethogi ac estyn, olrhain a rhoi adroddiad; sicrhau tegwch mynediad i gyfleoedd MAT.
- Cydlynu SEREN: trefnu mynediad at weithgareddau rhanbarthol/cenedlaethol, olrhain cyfranogiad a chanlyniadau, a chysylltu â theuluoedd a darparwyr HE.
- Sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru yn uchelgeisiol, cynhwysol ac yn cyd-fynd â datblygiad sgiliau trawsbynciol i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr MAT ac ADY.
- Arwain sicrhau ansawdd addysgu: ymweliadau gwersi, adolygu gwaith disgyblion a deialogau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan sbarduno ymyriadau amserol.

## Ardal Arolygu 2: Gofal, Cefnogaeth a Lles

**Arwain systemau Gofal a'r Rhaglen Iechyd a Lles; sicrhau dull ysgol gyfan o ran lles, presenoldeb, ymddygiad a pherthnasau cadarnhaol.**

- Sicrhau diogelu cadarn: polisi a gweithdrefnau, hyfforddiant (gan gynnwys recriwtio diogel/DBS), adrodd ac olrhain achosion; monitro cydymffurfiaeth.
- Rheolwr llinell ar y CADY a'r Pennaeth Cynhwysiant; sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod ADY.
- Goruchwylio mynediad teg ac addasiadau rhesymol; hyrwyddo arfer dosbarth cynhwysol a chydlynu ymyriadau wedi'u targedu.
- Sicrhau llais y dysgwr, y Senedd Ysgol, monitro presenoldeb ac ymddygiad; arwain strategaethau gwella yn seiliedig ar dueddiadau a data.

## Ardal Arolygu 3: Arwain a Gwella

- Arwain rhannau o Gynllun Gwella'r Ysgol ar addysgu, lles, cynhwysiant, MAT/SEREN a datblygiad staff; adrodd i UDA a'r Llywodraethwyr.
- Cyfrannu i gydlynu hunanwerthuso cadarn gan ddefnyddio cwestiynau ymholi, adborth rhanddeiliaid a gwerthusiadau effaith.
- Gosod a adolygu dangosyddion perfformiad ar gyfer lles, presenoldeb, ymddygiad a chynnydd grwpiau blaenoriaeth (ADY, MAT, PYD, RADY).
- Hyrwyddo diwylliant dysgu proffesiynol sy'n seiliedig ar gydweithrediad, ymarfer myfyriol a mentora; cefnogi lles staff yn weithredol.
- Datblygu partneriaethau allanol gyda'r ALI, gwasanaethau rhanbarthol a rhwydweithiau SEREN; trefnu cyfoethogi a chefnogaeth drawsnewidiol.

# ANGENRHEIDIOL

- Statws Athro Cymwysedig a phrofiad arweinyddiaeth llwyddiannus.
- Profiad eang o fod yn arweinydd mewn ysgol.
- Profiad llwyddiannus mewn cyflawni gwelliannau mewn ysgol, codi safonau ac arwain newidiadau.
- Tystiolaeth o arwain, rheoli, monitro, a hunan arfarnu agweddau o ddarpariaeth ysgol
- Arbenigedd mewn arweinyddiaeth ar les a diogelu, gyda gweithredu ysgol-gyfan llwyddiannus.
- Profiad o fentora staff a datblygu proffesiynol.
- Tystiolaeth o fagu perthynas weithio dda gyda rhieni, rhanddeiliaid, gwasanaethau ac asiantaethau allanol
- Gwybodaeth gadarn am Gwricwlwm i Gymru, asesu ar gyfer dysgu a disgwyliadau arolygu Estyn.
- Profiad o ysgogi, cefnogi a herio cydweithwyr ar bob lefel
- Gwybodaeth gynhwysfawr am ddiogelu ac amddiffyn plant
- Ymrwymiad i gynnal cyfrinachedd bob amser.
- Ymrwymiad i sefydlu a datblygu ethos arbennig yr ysgol
- Profiad o arwain systemau cynhwysiant/ADY a gweithio gyda'r - neu fel - CADY dan y Côd ADY.

**Dymunol:**

- Cymhwyster arweinyddiaeth ôl-raddedig, naill ai trwy'r Awdurdod Leol neu tu hwnt.
- Profiad o gydweithio ysgol i ysgol er mwyn rhannu arfer dda ac arloesi.
- Profiad o barodrwydd ar gyfer arolygiad ysgol gyfan ac o gyfrannu at CDY.
- Profiad o arbenigedd yn y maes arweiniol, wedi cefnogi unigolion, ysgolion neu sefydliadau eraill.

# DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Ymgymryd â chyfrifoldebau allweddol mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles holl ddisgyblion yr ysgol.
- Ymgorffori, modelu a hyrwyddo gwerthoedd, diwylliant ac ethos Ysgol Uwchradd Aberteifi ym mhob agwedd o waith yr ysgol.
- Cydweithio'n effeithiol â'r Pennaeth ac aelodau'r Uwch Dîm Arwain (UDA) i ddarparu arweinyddiaeth gadarn, strategol a gweithredol ar draws yr ysgol.
- Dirprwyo ar ran y Pennaeth yn ystod ei absenoldeb, gan sicrhau parhad arweinyddiaeth hyderus ac effeithiol.
- Cyflawni holl ddyletswyddau proffesiynol Dirprwy Bennaeth, gan gydymffurfio'n llawn â pholisïau, gweithdrefnau a disgwyliadau'r ysgol.
- Cyfrannu'n weithredol at brosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant parhaus, gan gynnwys datblygu, gweithredu a monitro polisïau perthnasol.
- Cefnogi a chryfhau safonau ymddygiad disgyblion yn unol â pholisïau'r ysgol, gan feithrin amgylchedd parchus a chadarnhaol.
- Paratoi a chyflwyno adroddiadau i'r Corff Llywodraethol a'i is-bwyllgorau, yn ôl yr angen, a mynychu cyfarfodydd perthnasol.
- Cymryd rhan lawn yn y broses Rheoli Perfformiad, fel unigolyn sy'n cael ei arfarnu ac fel arfarnwr.
- Gweithredu fel arweinydd llinell i adrannau, gan gefnogi a herio i sicrhau safonau uchel o addysgu a dysgu.
- Cynnal, cadeirio a chyfrannu at gyfarfodydd mewnol ac allanol, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cofnodi a'u gweithredu'n effeithiol.
- Cydweithio wrth lunio a gweithredu calendr blynyddol yr ysgol.
- Cymryd rhan yn rota dyletswyddau'r UDA a chyflawni dyletswyddau goruchwylio yn ystod y diwrnod ysgol, gan gynnwys amser cinio ac adegau perthnasol eraill.
- Goruchwylio, ac addysgu lle bo'n briodol, pan fo absenoldeb athrawon i sicrhau parhad dysgu.
- Arwain a chymryd rhan mewn gwasanaethau ac ystod eang o weithgareddau ysgol.
- Hybu a chefnogi gweithgareddau allgyrsiol a meithrin cysylltiadau cryf â'r gymuned leol.
- Cyfrannu at amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cefnogi datblygiad parhaus yr ysgol.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill yn unol â chyfarwyddyd y Pennaeth.

EGNI A LWYDD

Ysgol Uwchradd Aberteifi
Park Place
Aberteifi
Ceredigion
SA43 1AD
01239 612 670
Swyddfa@aberteifi.ceredigion.sch.uk

